

Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio yn  
Sir Gaerfyrddin

# Fframwaith ynghylch rheoli ein tir ar gyfer pryfed peillio



2020

Cyngor Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Council



# 1 Crynodeb

Mae'r cynllun strategol hwn yn cyflwyno ymrwymiad y Cyngor i gyfrannu at y camau gweithredu a gymerir ledled Cymru i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn pryfed peillio. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu i gyfrannu at ddatblygiad amgylcheddau lleol a fydd yn gyforiog o gynefinoedd sy'n helpu i gynnal poblogaethau pryfed peillio cynaliadwy. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at wneud lleoedd yn fwy deniadol i bobl fyw a gweithio ynddynt.

Bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei roi ar waith trwy nifer o swyddogaethau'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y modd y rheolir ardaloedd o seilwaith gwyrdd mewn perchnogaeth gyhoeddus er mwyn gwella'r

safleoedd hyn ar gyfer pryfed peillio. Bydd y Cyngor hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio o ran cefnogi cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol ar gyfer ein hiechyd a'n llesiant ni ein hunain.

Mae'r Cynllun Strategol yn adlewyrchu polisiau a deddfwriaeth leol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â gwarchod a gwella ein hamgylchedd naturiol ac yn cysylltu â chamau gweithredu i leihau allyriadau carbon ac iechyd a llesiant ein dinasyddion.

Ysgrifennwyd y cynllun hwn gyda golwg ar gyflawni camau gweithredu tebyg gan aelod-sefydliadau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynghorau Tref a Chymuned.



## 2 Pam fod angen Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio arnom?

### 2.1 Am fod rhywogaethau pryfed peillio yn y DU yn dirywio

- Yn y DU, pryfed peillio planhigion yw'r pryfed sy'n mynd â phaill o un planhigion i'r llall, gan ei gwneud yn bosibl i ffrwythloni ddigwydd a hynny'n arwain at dwf planhigion newydd.
- Mae pryfed peillio'n hanfodol ar gyfer cynnal ein hecosystemau, trwy beillio'r planhigion gwyllt sy'n sail i'r rhan fwyaf o gynefinoedd a hefyd trwy eu rôl allweddol bwysig o ran cynhyrchu llawer o gnydau, gan gyfrannu at economi'r DU. Mae pryfed peillio o werth cynhenid yn eu rhinwedd eu hunain fel rhan o'n treftadaeth naturiol, ac mae rhai rhywogaethau, megis gwenyn a gloynnod byw, yn cael eu gwerthfawrogi'n eang gan y cyhoedd.
- Fodd bynnag, mae'r pryfed pwysig hyn dan fygythiad o ganlyniad i bwysau lluosog gan gynnwys colli cynefinoedd, ffermio dwys, plaladdwyr a chlefydau.

### 2.2 Er mwyn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyflawni dyletswyddau/cyfrifoldebau a osodir arnom trwy ddeddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru

- Bydd datblygu Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio yn cyfrannu at rwmedigaethau cyfreithiol y Cyngor dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)

2016, i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ein swyddogaethau'n briodol a thrwy wneud hynny hybu cydnerthedd ecosystemau.

- Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei rwmedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cyfrannu at Amcanion Llesiant y Cyngor (yn benodol Amcan 12 - 'gofalu am yr amgylchedd yn awr ac ar gyfer y dyfodol') a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Sir Gaerfyrddin.
- Mae'n cefnogi'r flaenoriaeth yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer amgylchedd cynaliadwy.
- Mae'n cyfrannu at amcanion yng Nghynllun Adfer Natur Lleol y Cyngor.
- Er mai dogfen i'r Cyngor yw'r Cynllun Strategol hwn, gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cynghorau cymuned a datblygiadau partneriaethau strategol a gyflawnir gan y Cyngor ymrwymo i'r egwyddorion ynddi.
- Bydd yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Pryfed Peillio.



## 3 Pryfed Peillio

### 3.1 Pwysigrwydd pryfed peillio

- Mae ein pryfed peillio brodorol yn cynnwys gwenyn meirch a gwenyn eraill, gloÿnnod byw a gwyfynod, pryfed hofran, chwilod a chacwn. Credir bod dros 1500 o rywogaethau pryfed yn y DU yn peillio ein planhigion gwyllt brodorol a'n cnydau bwyd. Roedd gwerth peillio fel cyfraniad at farchnad gnydau'r DU yn 2007 yn £430 miliwn ac amcangyfrifwyd y byddai cost peillio â llaw, pe baem yn colli'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, yn £1.8 biliwn y flwyddyn yn y DU (Cynllun Gweithredu Pryfed Peillio Llywodraeth Cymru). Heb bryfed peillio byddem yn ei chael yn anodd tyfu llawer o gnydau llysiau a ffrwythau masnachol gan gynnwys afalau, gellyg, mefus, ffa a phys, rêp had olew.
- Y wenylen fêl Ewropeaidd yw'r prif bryf peillio sydd ar gael ar gyfer cnydau caeau ac awyr agored. Roedd oddeutu 749 gwenynfa (lle sy'n cadw cychod gwenyn) yn Sir Gaerfyrddin yn 2019, a oedd yn cynnwys rhyw 4120 o gychod gwenyn. Ar sail cyfartaledd y cynhyrchiant mêl fesul cwch gwenyn yng Nghymru yn 2019 o 26kg/cwch gwenyn, byddai hyn yn gyfwerth â chynhyrchiant mêl o ryw 107 tunnell, gyda gwerth amcanol o £824,000 (cyfathrebiadau personol yr Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol).
- Mae pryfed peillio hefyd yn ein helpu yn yr ardd a'r rhandir, gan helpu i roi inni'r llysiau a blodau gardd yr ydym yn eu mwynhau. Mae gerddi bellach yn cynnwys mwy o flodau na'r rhan fwyaf o dir amaethyddol ac, yn Sir Gaerfyrddin, mae gennym lawer o erddi. I lawer o bryfed peillio gall gerddi fod o gymorth mawr i boblogaethau lleol.

- Mae peillio gan bryfed, trwy helpu planhigion i atgynhyrchu hefyd yn cefnogi rhwydwaith mwy cymhleth o fywyd anifeiliaid a phlanhigion. Felly mae peillio'n broses bwysig i gynnal ecosystemau iach a bioamrywiol.

#### Mewn manau eraill



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio canllawiau ynghylch rheoli tiroedd adeiladau cyhoeddus ar gyfer pryfed peillio – **Gwell i'r Genyn: Gwell i'r Bobl**

### 3.2 Pryfed peillio dan fygythiad

- Nodwyd yn "(<https://www.buglife.org.uk/wales-threatened-bee-report-0>)" Adroddiad Gwenyn dan Fygythiad Buglife Cymru, a gyhoeddwyd yn 2018, fod saith o rywogaethau gwenyn wedi diflannu yng Nghymru, bod pum rhywogaeth ar hyn o bryd mewn perygl o ddiflannu a bod yr ystod o rywogaethau eraill wedi dirywio'n sylweddol.
- Mae ymchwil yn dynodi bod dirywiad o 23% wedi bod mewn gwenyn mêl yng Nghymru rhwng 1985 a 2005.



- Roedd yr Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Cymru yn 2016 yn dangos bod 60% o rywogaethau gloynnod byw wedi dirywio dros y tymor hir (~1970–2013). (Ymddiriedolaeth Gwarchod Gwenyn; Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio; Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Cymru, 2016) Mae llawer o resymau posibl dros y newidiadau hyn yr arsylwyd arnynt. Nid yw'n ymddangos bod un ffactor unigol yn gyfrifol am y newidiadau, ond bod llawer o ffactorau'n cyfuno i greu effaith fwy ar y cyfan. Fodd bynnag, mae rhai effeithiau sy'n fwy amlwg na'i gilydd.
- **Colli cynefinoedd, eu diraddiad a'u darniad** – achos mwyaf arwyddocaol y dirywiad yw colli cynefinoedd sy'n darparu bwyd, cysgod a safleoedd nythu ar gyfer pryfed peillio. Gellir priodoli'r colledion i ffermio mwy dwys, rheolaeth amhriodol ar gynefinoedd posibl, a datblygu trefol/diwydiannol. Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn Nature yn 2016 yn dangos bod colli blodau gwyllt ym Mhrydain yn cyddaro â'r dirywiad mewn pryfed peillio.
- **Plaladdwyr** – ceir tystiolaeth gynyddol bod defnyddio plaladdwyr yn cael effeithiau niweidiol ar bryfed peillio gan gynnwys gwenyn mêl, gwenyn gwyllt a gloynnod byw.

- **Newid yn yr Hinsawdd** – gall newidiadau hirdymor amddifadu pryfed peillio o gyflenwadau bwyd ar adegau pan fo'u hangen arnynt, eu gwneud yn fwy agored i barasitiaid a chlefydau, neu newid cynefinoedd fel nad ydynt yn addas mwyach. Yn y ffordd hon mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad i gydnerthedd ecosystemau.

### 3.3 Beth mae ar bryfed peillio ei angen?

- **bwyd** ar ffurf paill a neithdar y chwilotwyd amdanynt mewn amrywiaeth o rywogaethau planhigion blodeuo, sydd ar gael rhwng dechrau'r gwanwyn a diwedd yr hydref o nifer o gynefinoedd, e.e. dolydd, perthi, ymylon ffyrdd, ymylon coetiroedd, perllannau a gerddi. Gall llawer o blanhigion a choed ddarparu'r adnoddau bwyd hyn, gan gynnwys llawer o 'chwyn' fel y'u gelwir megis dant y llew a llygad y dydd. Yn ogystal â blodau, mae ar lawer o bryfed peillio angen adnoddau bwyd eraill i gefnogi'r gwahanol gyfnodau yn eu bywydau – er enghraifft mae ar lindys gloynnod byw a gwyfynod angen planhigion arbennig i fyw arnynt.
- strwythur llystyfiant amrywiol, e.e. perthi, prysgwydd a gwair hir i **gael cysgod, lle i nythu a threulio'r gaeaf ynddo**. Gall



llystyfiant trwchus megis glaswelltir tuswog, prysgwydd, coed aeddfed, a phentyrrau o bren a cherrig ddarparu cynefin hanfodol ar gyfer pryfed peillio sy'n gaeafgysgu. Mae llawer o rywogaethau'n gaeafgysgu fel oedolion gan gynnwys mamwenyn meirch, a rhai gloynnod byw a phryfed hofran, eraill fel wyau, larfau neu bwpaod. Caiff hen dyllau a llystyfiant trwchus eu defnyddio gan gacwn bwm, tra bydd gwenyn sy'n nythu ar y ddaear megis gwenyn turio yn defnyddio llethrau heulog a thir sych.

### 3.4 Sut allwn ni helpu?

Er mwyn gwrthdroi'r dirywiad yma, dylem amcanu at wneud y canlynol:

- **Bwyd - darparu ffynhonnell bwyd sy'n helpu pryfed peillio**
- cynyddu **amrywiaeth** ardaloedd sy'n gyfuriog o flodau, h.y. rheoli ardaloedd ffurfiol ac anffurfiol fel bod ystod o rywogaethau addas sy'n denu pryfed peillio ar gael;
- cynyddu **helaethdra** adnoddau bwyd, h.y. cynyddu'r arwynebedd tir sydd ar gael i bryfed peillio'i ddefnyddio; ac
- estyn **argaeledd** adnoddau sy'n gyfuriog o flodau trwy gydol cylch oes pryfed peillio;



gwneud yn siŵr bod planhigion addas ar gael o'r gwanwyn tan yr hydref.

Fodd bynnag, mae angen i ni ddeall mai planhigion brodorol, yn aml, sy'n rhoi'r gynhaliaeth orau i'n pryfed peillio brodorol. Nid yw disodli cynefinoedd naturiol â blodau blynyddol amryliw yn rhywbeth sydd er budd ein bioamrywiaeth frodorol. Fodd bynnag, gall fod â rôl o ran tirlunio mewn ardaloedd mwy trefol mewn glaswelltir amwynder.

- **Darparu lleoedd i bryfed peillio fyw**
- **Osgoi defnyddio cemegion sy'n niweidio pryfed peillio**
- **Cydweithio er mwyn helpu pryfed peillio**

Mae'r uchod yn themâu a geir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Pryfed Peillio - gweler adran 7.1 i gael rhagor o wybodaeth.


### 3.5 Beth mae ymchwil yn ei ddangos?

Mae cryn dipyn o ymchwil i fanteision rheoli ardaloedd ar gyfer pryfed peillio – ar gyfer bioamrywiaeth leol ac ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd hyn. Ceir tystiolaeth hefyd bod cymeradwyaeth gyhoeddus i gamau gweithredu cadarnhaol o'r fath. Mae toreth o ganllawiau ar gael ar gyfer ystod o ddefnyddwyr i helpu i oleuo'r gwaith o reoli ardaloedd ar gyfer pryfed peillio – o

ardaloedd o dir o amgylch adeiladau cyhoeddus, i barciau, rhandiroedd a gerddi. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Dangosodd astudiaeth yn swydd Sussex fanteision llai o dorri gwair mewn parc cyhoeddus – roedd mwy o helaethrwydd o flodau a phryfed sy'n ymweld â blodau a dywedodd 97% o'r ymwelwyr â'r parc bod yn well ganddynt annog pryfed a blodau gwyllt (Insect Conservation and Diversity, 2015).
- Daeth ymchwil i gymunedau pryfed peillio mewn cynefinoedd amrywiol i'r casgliad y dylai gwella gwerth ardaloedd trefol ar gyfer pryfed peillio fod yn rhan o unrhyw strategaeth genedlaethol i warchod ac adfer pryfed peillio (Proc. R. Soc. B, 2015)
- Yn aml ceir canfyddiad fod gan ardaloedd trefol lai o fioamrywiaeth na'r cefn gwlad ehangach, ond awgryma rhai astudiaethau a wnaed ar raddfa fach y gall gerddi a rhandiroedd trefol gynnal poblogaethau sylweddol o bryfed peillio. (Nature Ecology & Evolution, 2019)
- Mae coridorau trafndiaeth, gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, camlesi a llwybrau beicio, yn darparu ystod o gynefinoedd a nodweddion a all fod yn fuddiol ar gyfer pryfed peillio. Rhaid i drefnau torri porfa geisio cydbwysedd rhwng diogelwch, amwynder ac anghenion pryfed peillio/bywyd gwyllt. (Buglife)

#### Mewn manau eraill



Mae partneriaid ym Mryste, gan gynnwys y Cyngor Sir, wedi llunio strategaeth leol i hybu camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer pryfed peillio.

#### Mewn manau eraill



Mae Buglife yn datblygu prosiect 'B-line' sy'n amcanu at adfer a chreu rhwydwaith o ardaloedd o ansawdd da sy'n gyforiog o flodau gwyllt. Ceir ardaloedd B-line arfaethedig yn Sir Gaerfyrddin.


## Deddfwriaeth a Pholisi

Gofynnir i awdurdodau lleol ledled Cymru, trwy ddeddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, gyflawni gwaith, hyrwyddo gwaith ac ennyn brwdfrydedd eraill i gyfranogi mewn gwaith a fydd o fudd i bryfed peillio. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Tasglu Pryfed Peillio i arwain ar hyn.

gwasanaethau a daliadau tir amrywiol mewn sefyllfa unigryw i helpu i ddiogelu ein pryfed peillio brodorol. Mae cyfleoedd sylweddol yn bodoli yng ngwaith awdurdodau lleol, gan gynnwys yn ein rôl ni o ran cynllunio a datblygu strategol lleol ac fel rheolwyr manau gwyrdd cyhoeddus, tai, priffyrdd ac ysgolion.

Mae awdurdodau lleol gyda'u cyfrifoldebau,

### Mae deddfwriaeth berthnasol a pholisi perthnasol yn cynnwys:



Bydd rhoi'r Cynllun Strategol ar waith yn helpu'r Cyngor yn uniongyrchol i gyflawni ein dyletswydd dan y ddeddfwriaeth uchod ac amcanion mewn polisi cenedlaethol/cynlluniau lleol. Bydd yn dangos sut y gallwn arwain trwy esiampl trwy reoli rhai o'n daliadau tir i ddwyn manteision lluosog i'r gymuned a phryfed peillio a chynnig cyfleoedd i weithio mewn

partneriaeth gydag eraill. Bydd gwneud newidiadau nid yn unig o fudd i bryfed peillio ond bydd hefyd yn darparu manau gwyrdd cyhoeddus o ansawdd gwell; gan helpu i ddod â phobl yn agosach at Fyd Natur, gyda'r manteision i iechyd a llesiant a ddaw yn sgîl hyn. Mewn rhai achosion gall newidiadau o'r fath ddwyn arbedion ariannol.





### Mewn manau eraill



A hwythau'n wynebu toriadau hyd at 60% yn eu parciau cyhoeddus dros y degawd nesaf, rhoddodd Burnley ystyriaeth i ddulliau newydd o reoli eu parciau, gan geisio eu cynnal a'u cadw am gost is, cynyddu bioamrywiaeth a lleihau allyriadau CO2. Yn 2015/16 fe gyflawnon nhw arbedion o £67,480.

Dylai'r Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio eistedd ochr yn ochr â chynlluniau neu bolisiau eraill sy'n cynnwys rheoli manau gwyrdd a seilwaith gwyrdd, a chysylltu â Chynlluniau Datblygu Lleol neu bolisiau presennol. Dylid cyfeirio ato fel rhan o unrhyw adolygiad o gynlluniau neu bolisiau perthnasol y Cyngor yn y dyfodol.

Mae datblygu Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio a'i roi ar waith yn dangos ymrwymiad gan yr awdurdod lleol ein bod yn gwneud ein rhan i warchod ein pryfed peillio ac yn derbyn heriau'r Llywodraeth i weithredu.

Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio yn cyfrannu at yr holl Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

|   |  |
|---|--|
| Cymru lewyrchus                                       | Roedd gwerth peillio fel cyfraniad i farchnad gnydau'r DU yn 2007 yn £430 miliwn. Mae gwerth mêl a gynhyrchir yng Nghymru hefyd yn sylweddol gyda gwerth cyfanwerthu uwch na £3 filiwn yn 2016.                                    |
| Cymru gydnherth                                       | Bydd cynefinoedd naturiol amrywiol â phoblogaethau iach o bryfed peillio'n helpu ein hamgylchedd naturiol i fod yn fwy cydnherth yn wyneb newid ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau pryfed peillio allweddol bwysig ar ein cyfer. |
| Cymru iachach   | Mae adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol at iechyd corfforol a lles meddyliol pobl yng Nghymru. Mae mynediad at natur a mannau gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl.               |
| Cymru sy'n fwy cyfartal                               | Mae mynediad cyfartal at ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau diwyllian-nol yn cyfrannu at gydraddoldeb yng Nghymru. Bydd mynediad lleol at fannau gwyrdd o ansawdd da o fudd i'n dinasyddion.                                    |
| Cymru o gymunedau cydlynus                            | Dangoswyd fod cynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn gwella cydlyniant cymunedol ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.  |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae ein cynefinoedd amrywiol a'r ystod o rywogaethau ynddynt wedi cyfrannu at dirwedd yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi bod â rôl arwyddocaol o ran datblygu diwylliant arwahanol megis celf a llenyddiaeth lleol-benodol.              |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang                 | Mae'r amgylchedd yn cyflenwi ein holl adnoddau materol ond rhaid inni sicrhau mai dim ond ein cyfran deg a ddefnyddir gennym.  |

### Mewn mannau eraill



Cynhyrchodd Cyngor Sir Mynwy Gynllun Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Pryfed Peillio. Y cynllun hwn yw'r cyntaf o'i fath ac mae'n nodi sut y gall tîrfeddianwyr reoli eu heiddo'n fwy effeithiol a chydweithio i fynd i'r afael â dirywiad gwenyn a phryfed peillio eraill.

## 5 Cyflwyno newidiadau i helpu pryfed peillio - nodau'r Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio

**Yn gryno ein nodau yw** mynd i'r afael ag achosion dirywiad ym **mhoblogaethau, amrywiaeth** ac ystod ein rhywogaethau pryfed peillio trwy:

- gynyddu'r arwynebedd cynefinoedd sy'n addas ar gyfer pryfed peillio a rheoli ardaloedd i ddwyn mwy o fanteision i bryfed peillio;
- sicrhau bod y Cyngor yn ystyried anghenion pryfed peillio wrth gyflawni ein swyddogaethau trwy gyflawni ein dyletswydd Bioamrywiaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd (2016);
- gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio ymhlith y cyhoedd, busnesau a thirfeddianwyr preifat ac ennyn brwdfrydedd eraill i weithredu.

- Bydd yn rhaid i'r nodau hyn gael eu hintegreiddio ar draws swyddogaethau'r Cyngor trwy gynllun gweithredu sy'n nodi ble y gellir cymryd camau gweithredu.
- Bydd cyrraedd nodau'r Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio nid yn unig yn cynyddu'r ddarpariaeth pryfed peillio ond bydd hefyd yn helpu i ddatblygu mannau amlswyddogaethol gan ddwyn manteision cymdeithasol a manteision i iechyd ac yn gwneud yr ecosystem yn fwy cydnerth i faterion megis y newid yn yr hinsawdd a chlefydau.
- Mae cysylltedd cynefinoedd yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu adnodd defnyddiol ar gyfer pryfed peillio. Nid yw pryfed peillio'n cyfyngu eu hunain o fewn y terfynau a ddiffinnir gan fodau dynol. Dylai gweithio ar draws adrannau ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ganiatáu cyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol o blaid pryfed peillio ar raddfa ehangach.

- Yn y tymor hir, trwy roi'r Cynllun Strategol hwn ar gyfer Pryfed Peillio ar waith yn effeithiol gallem ymgeisio am statws 'Caru Gwenyn' gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i chynllun cenedlaethol.

### Mewn mannau eraill



O ganlyniad i gamau gweithredu cadarnhaol ar gyfer pryfed peillio CBS Conwy a CS Mynwy yw'r awdurdodau lleol sy'n caru gwenyn cyntaf yng Nghymru

## 6 Yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud

Mae'r Cyngor eisoes wedi ystyried pryfed peillio mewn rhai meysydd y mae'n gweithio ynddynt ac wedi ceisio cymryd camau gweithredu cadarnhaol. Byddai'r Cynllun Strategol hwn ar gyfer Pryfed Peillio yn cefnogi camau gweithredu parhaus ac yn hybu camau gweithredu i ddiwygio arferion presennol. Isod ceir enghreifftiau o gamau gweithredu yr ydym eisoes yn eu cymryd:



Mae'r Adran Priffyrdd yn rheoli cyfres o ymylon ffyrdd fel ymylon 'i'w torri'n hwyr', gan adael i flodau fwrw hadau cyn cael eu torri.



Mae'r gwaith a wnaed gyda'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn a phreswylwyr lleol ym Mharc Dŵr y Sandy yn Llanelli wedi gwella'r llecynnau gwyrdd lleol ar gyfer pryfed peillio.



© L.Brooks

Grwp Dolydd Sir Gaerfyrddin, trwy hybu'r arfer o reoli dolydd gwair sy'n gyforiog o rywogaethau traddodiadol sy'n cynnal pryfed peillio



Mae cymysgiadau o hadau paill wedi cael eu cyflwyno mewn ardaloedd o laswelltir o amgylch safleoedd tai, ac mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd iawn gyda thrigolion lleol



Mae rheolwyr y Gwarchodfeydd Natur Lleol yn ceisio rheoli ardaloedd ar gyfer pryfed peillio. Rheoli cynefin tir llwyd sy'n gyforiog o rywogaethau ym Morfa Brewig sy'n cynnal ystod eang o bryfed peillio gan gynnwys y gardwenynen lwydfrown brin.

## 7 Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio – ei roi ar waith a'i gyflawni

Er mwyn rhoi'r cynllun hwn ar waith yn llwyddiannus a chyflawni camau gweithredu a fydd yn cynnal pryfed peillio bydd y Cyngor yn:

- Datblygu cynlluniau gweithredu safle-benodol a fydd yn nodi sut y bydd anghenion pryfed peillio'n cael sylw ar dir a reolir gan y Cyngor; bydd y dull hwn yn cael ei dreialu ar draws 5 safle
- Briffio timau Gofal Cwsmeriaid y Cyngor, er mwyn iddynt allu hysbysu'r cyhoedd pam y gallai'r ffordd yr ydym yn rheoli ein tir newid
- Sicrhau bod gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth berthnasol sy'n egluro sut mae'r Cyngor yn rheoli tir ar gyfer pryfed peillio a dolenni sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer eraill a hoffai wneud yr un peth.
- Datblygu offeryn syml i asesu ansawdd y glaswelltiroedd y mae'r Cyngor yn eu rheoli.
- Adolygu llwyddiant y camau gweithredu hyn gyda golwg ar ddatblygu camau gweithredu ychwanegol yn y dyfodol – gweler 7.3 isod.

### 7.1 Cynlluniau gweithredu safle-benodol a fydd yn nodi sut y bydd anghenion pryfed peillio'n cael sylw ar dir a reolir gan y Cyngor; bydd y dull hwn yn cael ei dreialu ar draws pum safle.

Gellir cymryd camau gweithredu ar safleoedd dan dair thema:

#### • **Bwyd – darparu ffynonellau bwyd sy'n denu pryfed peillio**

- hyrwyddo gofynion rheoli sy'n diwallu anghenion pryfed peillio,
- newidiadau i gyfundrefnau rheoli, megis torri gwair i wahanol uchderau a/neu ar wahanol adegau o'r flwyddyn i alluogi planhigion i flodeuo, ac ardaloedd 'gwyllt' tal i ddatblygu,
- adfer a chreu dolydd blodau gwyllt,
- datblygu ardaloedd plannu ffurfiol sy'n denu pryfed peillio gyda phlanhigion lluosflwydd,
- gwaith priodol i blannu coed.

#### • **Darparu manau i bryfed peillio gysgodi, nythu a threulio'r gaeaf**

- adnabod a gwarchod ardaloedd o wair hir/tuswog i'w cynnal fel cynefin ar gyfer pryfed peillio trwy gydol y flwyddyn,
- plannu perth rhywogaeth frodorol ar lan afon,
- cynnal glannau afonydd moel sy'n wynebu'r de ar gyfer gwenyn ar eu pen eu hunain,
- gosod gwestai pryfed mewn lleoliadau addas.

#### • **Osgoi cemegau sy'n niweidio pryfed peillio**

- adolygu'r defnydd o blaladdwyr.

### 7.2 Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd

- darparu gwybodaeth/canllawiau ynghylch pryfed peillio a sut y gellir darparu ar eu cyfer trwy dimau Gofal Cwsmeriaid a gwefan y Cyngor,
- gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gweithdai a helpu gyda phrosiectau

- cymunedol,
- helpu pryfed peillio trwy swyddogaethau rheoleiddiol – Rheoli Cynllunio/Datblygu Lleol.

**Mewn manau eraill**



Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru brosiect Achub Pryfed Peillio ac mae'n defnyddio'i harbenigedd codau bar DNA a'i gwybodaeth arddwriaethol i ymchwilio i hoffterau blodeuol gwenyn mêl a phryfed peillio eraill

**7.3 Gallai Camau Gweithredu yn y Dyfodol gynnwys:**

- **Adrannau'r Awdurdod Lleol.** Mae nifer o fathau o seilwaith gwyrdd lle gallai camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer pryfed peillio gael eu cymryd: tir ysgolion, tai, ymylon ffyrdd, parciau gwledig, manau dinesig, rhandiroedd a pharciau a gerddi cyhoeddus, datblygiadau dan arweiniad yr Awdurdod Lleol, ffermydd a osodir gan y Cyngor.
- Fel rhan o'r gwaith o gymeradwyo'r Cynllun Strategol hwn bydd y Cyngor yn annog Aelodau eraill o'r **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** i ymrwymo i'w nodau a cheisio eu gweithredu trwy reoli eu tir a'u harferion gwaith.
- Hefyd, gallai **busnesau, ysgolion a chynghorau cymuned** fabwysiadu

amcanion y cynllun strategol a chymryd camau gweithredu cadarnhaol ar y tir y maent yn ei reoli.

- Er mwyn bwrw ymlaen â rhoi'r Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio ar waith gallai camau gweithredu posibl gan y Cyngor gynnwys:

- cynnal cyswllt mewnol â rheolwyr a gweithredwyr i hyrwyddo'r Cynllun Strategol trwy ei gysylltu ag Amcanion Llesiant y Cyngor a'i ddyletswydd Bioamrywiaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd;
- roi anogaeth ar gyfer gwaith cymunedol ac mewn partneriaeth ar brosiectau sy'n ymwneud â phryfed peillio;
- ceisio gweithio gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru sy'n gwneud ymchwil i bryfed peillio yng Nghymru;
- gwneud gwaith ymgysylltu ac allgymorth cymunedol neu weithio mewn partneriaeth ar y rhain;
- cynnal cyswllt ag ysgolion neu weithio mewn partneriaeth i wneud hynny;
- cynnal prosiect partneriaeth strategol i ddangos sut y gall nodau'r Cynllun Strategol gael eu rhoi ar waith ac ennill statws 'Caru Gwenyn' i dref yn Sir Gaerfyrddin. Ceisio cyllid ar gyfer prosiect o'r fath.
- Sicrhau bod prosiectau strategol eraill, e.e. y Pentref Llesiant sydd wrthi'n datblygu yn Llanelli, yn mabwysiadu egwyddor y cynllun.
- ymgynghori ag awdurdodau eraill i ganfod mwy am yr hyn y maent yn ei wneud ar gyfer pryfed peillio i ddysgu o'u profiad.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi **pum ffordd o weithio** y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ymlynu wrthynt er mwyn dangos sut y maent yn cyflawni eu dyletswydd. Yn awr rhaid i unrhyw brosiect ar gyfer pryfed peillio ddangos eu bod yn dilyn y ffyrdd hyn o weithio a byddai'r Strategaeth hon yn dilyn yr egwyddorion hynny:

**Meddwl am y tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy eu hunain**

**Deall achosion sylfaenol y materion i'w hatal rhag ailddigwydd**

**Defnyddio dull integredig fel ein bod yn ystyried yr holl nodau llesiant ac amcanion gwasanaethau a phartneriaid eraill**

**Cydweithio – gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy ar y cyd**

**Cynnwys - sicrhau bod amrywiaeth o'r boblogaeth yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt**

#### **7.4 Adrodd**

Bydd camau gweithredu i sefydlu'r broses o gyflawni'r Cynllun Strategol fel rhan o waith beunyddiol adrannau'r Awdurdod Lleol yn cael eu cymryd a byddir yn adrodd arnynt trwy Flaengynllun y Cyngor dan Ddeddf yr Amgylchedd a hynny'n gysylltiedig ag adrodd ag Amcan Llesiant 12.



## 8 Dolenni defnyddiol

- **Gwell i'r Gwenyn: Gwell i'r Bobl** – Rheoli tir adeiladau cyhoeddus ar gyfer pryfed peillio. <https://cdn.naturalresources.wales/media/681906/rheoli-tir-adeiladau-cyhoeddus-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf?mode=pad&rnd=13158168342000000>
- **Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio:** <https://www.biodiversitywales.org.uk/Wales-Action-Plan-for-Pollinators>
- **Learning to Rethink Parks** – adroddiad gan raglen Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Nesta i brofi ffyrdd newydd o reoli parciau cyhoeddus. Ceir rhagor o fanylion am y prosiectau ar-lein yn <https://www.nesta.org.uk/project/rethinking-parks/>
- **Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt** – pum cam gweithredu syml ar gyfer pryfed peillio. Mae rhywbeth bach y gall pawb ei wneud ar gyfer pryfed peillio. Darllenwch am bum cam gweithredu syml y gallwch eu cymryd. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-and-wild-places/saving-species/save-bees-and-pollinators>
- **Buglife.** Rheoli Ardaloedd Trefol ar gyfer Pryfed Peillio. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gyfer parciau cyhoeddus. [https://cdn.buglife.org.uk/2019/08/managing-urban-areas-for-pollinators\\_0.pdf](https://cdn.buglife.org.uk/2019/08/managing-urban-areas-for-pollinators_0.pdf)
- **Caru Gwenyn** – menter newydd sbon sydd wedi'i bwriadu ar gyfer cymunedau gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned sy'n dymuno gwneud Cymru'n wlad sy'n denu pryfed peillio. <https://www.biodiversitywales.org.uk/Wales-Action-Plan-for-Pollinators>
- **Buglife.** Rheoli Ardaloedd Trefol ar gyfer Pryfed Peillio. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gyfer parciau cyhoeddus. [https://cdn.buglife.org.uk/2019/08/managing-urban-areas-for-pollinators\\_0.pdf](https://cdn.buglife.org.uk/2019/08/managing-urban-areas-for-pollinators_0.pdf)
- **Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn** gyfres o daflenni gwybodaeth ar reoli tir ar gyfer cacwn bwm. <https://www.bumblebeeconservation.org/land-management-advice/>